# CPG ON SPORT

## FOOTBALL IN WALES

WEDNESDAY 12TH OCTOBER 10.00-11.00AM

## COFNODION GRWP

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 12/10/2022 |
| **Lleoliad:** | Microsoft Teams |

## YN BRESENNOL:

| **Enw:** | **Teitl:** |
|---|---|
| Laura Anne Jones AS | Aelod rhanbarthol dros Ddwyrain De Cymru a Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Chwaraeon |
| Matthew Williams | Pennaeth Polisi a Chyfathrebu Cymdeithas Chwaraeon Cymru<br><br>Ysgrifennydd y GTB ar Chwaraeon |
| Sam Houldsworth | Clwb pêl-droed Dinas Casnewydd |
| Craig Leonard | Clwb pêl-droed Corinthians Casnewydd |
| Natalie Pelders | Clwb pêl-droed merched Rangers y Mwmbwls |
| Tom Giffard AS | Aelod rhanbarthol dros Dde Orllewin Cymru |
| Huw Irranca-Davies AS | |
| Alun Davies AS | |
| Gareth Llewellyn | Staff Cymorth Aelod |
| Stewart Owadally | |
| James Evans AS | |
| Lee Parsons | Staff Cymorth Aelod |
| Heledd Fychan AS | |

CPG ON SPORT

FOOTBALL IN WALES

WEDNESDAY 12TH OCTOBER 10.00-11.00AM

## COFNODION GRWP

| | |
|---|---|
| Emilia Douglass | Staff Cymorth Aelod |

## YMDDIHEURIADAU:

| **Enw:** |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

## CRYNODEB O'R CYFARFOD:

**Laura Anne Jones (LAJ):** Croesawodd Laura y grŵp, gan amlinellu nad yw'r cyfleusterau chwaraeon yng Nghymru wedi cael cyllid ar raddfa fawr am flynyddoedd. Croesawodd y siaradwr cyntaf, Natalie.

**Natalie Pelders (NP):** Hyfforddwr gwirfoddol, cadeirydd adran merched Rangers y Mwmbwls, adran ferched mwyaf Cymru.

Amlinellodd faterion o ran:

- Yr her i ddod o hyd i wirfoddolwyr
- Yr her i ddod o hyd i hyfforddwyr
- Cyfleusterau: Y Mwmbwls yw'r clwb mwyaf yng Nghymru. Caiff y cae ei rannu â gweithgareddau criced ac mae'n barc cyhoeddus, sy'n gallu achosi problemau o ran archebu lle.
- Cyfleusterau: Cyn lochesi rhyfel o 1940 yw'r ystafelloedd newid, ac mae'r cyfleusterau newid wedi aros yr un fath ers hynny. Mae ystafell newid fechan a thoiled i ferched ar gael ond nid yw'n ddigon mawr, felly prin iawn yw'r defnydd a wneir ohoni.

## COFNODION GRWP

Camau i'w cymryd:

- 'The Huddle', rhaglen i gyflwyno pêl-droed i ferched rhwng 5 ac 8 oed, rhaglen 6 wythnos o hyd. Cofrestrodd 50 o ferched ac ymunodd 70% ohonynt â'r clwb wedyn.

**Tom Giffard AS (TG)** Pa fath o bwysau sydd ar blant sy'n cymryd rhan mewn sawl math o chwaraeon? A oes gwrthdaro rhwng gwahanol gampau?

**NP**: Mae'r merched yn dweud y byddent yn hoffi ymuno ond mae ganddynt weithgareddau eraill sy'n cael blaenoriaeth yn aml. Mae gwrthdaro yn digwydd o ran y meysydd chwarae hefyd.

**LAJ:** Yn cyflwyno Craig o Corinthians Casnewydd.

**Craig Leonard (CL)**: Amlinellodd rai materion craidd:

- Cyfleusterau: Nid yw ansawdd y meysydd chwarae yn cyfateb i'r ffioedd mawr a delir i awdurdodau lleol
- Cyfleusterau: Mae e wedi ceisio cysylltu ag ALl o ran pryderon am les chwaraewyr oherwydd y tyllau ar y cae ond heb gael ymateb. Mae'n pryderu y gallai'r risg hwn i iechyd atal pobl rhag chwarae yn y dyfodol. Mae'r clwb hefyd wedi cael e-byst gan rieni pryderus.

**LAJ:** O ran misoedd y gaeaf, sut olwg sydd ar y caeau?

**CL:** Nid oes modd chwarae ar 2/4 o'r caeau.

**LAJ**: Yn symud ymlaen at Sam, o glwb pêl-droed Dinas Casnewydd.

**Sam Houldsworth (SH):** Mae biliau ynni wedi cynyddu'n sylweddol, mae'n costio mwy i gael swyddogion i'r gemau, mae costau petrol wedi codi gan ei gwneud hi'n anodd teithio i gemau. Ochr yn ochr â hyn, mae'r cit yn fater o bryder, o ran ei brynu a'i olchi.

Mae wedi gofyn am gyngor gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a dywedwyd wrtho i ddod â'r tîm dan 13 a thîm y merched i ben.

Mae nawdd yn anos i'w gael nawr mewn byd ôl-bandemig, ochr yn ochr â diffyg cefnogaeth gan gorff llywodraethu CBDC a Chyngor Casnewydd. Mae problem enfawr o ran y pyramid arian, nid yw'n treiddio i lawr fel y mae'n digwydd ym myd rygbi. O ganlyniad, mae pêl-droed ar lawr gwlad yn marw.

# CPG ON SPORT

FOOTBALL IN WALES

WEDNESDAY 12TH OCTOBER 10.00-11.00AM

## COFNODION GRWP

Mae'r cyngor yn codi prisiau i logi caeau chwarae ac yn gostwng safonau gofal y clwb. Mae fandaliaeth yn digwydd yn y clybiau ac nid yw’n cael ei lanhau.

Yng Nghasnewydd, nid oes digon o gaeau 3G, ac, o ran y rhai sydd ar gae,  nid ydynt oes rheolaeth arnynt. Nid yw Casnewydd Fyw yn dyrannu archebion i logi cyfleusterau yn gyfartal.